

Cyngor Adnewyddu'r Economi Lle Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd

Diben y Papur

Gofynnodd Partneriaid Cymdeithasol am bapur ynghylch lle Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror. Mae'r papur hwn yn egluro'r cefndir cyffredinol a'r ystadegau allweddol sy'n ymwneud â gwerth yr UE i Gymru ac mae'n crynhoi gwahanol safbwyntiau ar yr UE.

1. Cefndir Marchnad Sengl Ewrop

Mae bod yn aelod o'r UE yn darparu mynediad i'r Farchnad Sengl, sef marchnad gartref ac ynddi 500 miliwn o bobl. Nodau allweddol y Farchnad Sengl yw cynnig mwy o ddewis a chynnig prisiau is i ddinasyddion a busnesau. Mae rheoliadau cyson a llai o rwystrau i fasnach wedi galluogi cwmnïau o bob maint yn yr UE i gyflawni busnes ar draws y Farchnad Sengl.

Mae cwblhau'r Farchnad Sengl yn ymarfer sy'n parhau ac yn elfen ganolog o agenda'r UE o ran twf ar gyfer y dyfodol. Gan gofio hynny mabwysiadodd yr UE Ddeddf y Farchnad Sengl ym mis Ebrill 2011, sy'n nodi deuddeg o ysgogiadau i hybu twf a hyder. Roedd yr ysgogiadau hynny'n cynnwys, er enghraifft: trethi; mynediad i gyllid ar gyfer busnesau bach; a chaffael cyhoeddus. Ym mis Hydref 2012 cynigiodd y Comisiwn ail gyfres o gamau gweithredu (Deddf y Farchnad Sengl II) er mwyn datblygu'r Farchnad Sengl ymhellach drwy, er enghraifft, rwydweithiau trafndiaeth ac ynni gwell a thrwy'r economi ddigidol.

Fodd bynnag mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gwblhau'r Farchnad Sengl, yn enwedig o ran gwasanaethau ac ynni, ac mae'r Comisiynwyr Ewropeaidd newydd a ddechreuodd ar eu swyddi ym mis Tachwedd 2014 dan arweiniad y Llywydd Juncker wedi dangos ymrwymiad i symud y gwaith hwn yn ei flaen, gyda mentrau sy'n cynnwys rhai'n ymwneud â'r Farchnad Sengl Ddigidol (ee hawliau contractau digidol a mynediad trawsffiniol i gynnwys) a rhai'n ymwneud â hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau, gwarchod hawliau eiddo deallusol, a'r Pecyn Undeb Ynni.

2. Masnach a Buddsoddi

Marchnad Sengl yr UE yw economi fwyaf y byd o safbwynt Cynnyrch Domestig Gros, a dyma ein partner masnachu unigol mwyaf o hyd. Mae gan fusnesau yn yr UE, p'un a ydynt yn hanu o'r UE ai peidio, ynghyd â'u cadwyni cyflenwi gyfle i elwa ar fynediad i'r farchnad hon. O ganlyniad mae llawer o fusnesau nad ydynt yn hanu o'r UE wedi sefydlu presenoldeb sylweddol yn yr UE er mwyn manteisio ar y Farchnad Sengl.

Mae Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor o wledydd yr UE yn cyfrif am oddeutu un rhan o dair o brosiectau mewnfuddsoddi i Gymru bob blwyddyn. Mae'r Almaen,

Iwerddon, Ffrainc a'r Eidal yn gyson ymysg y deg gwlad sy'n sicrhau'r mewnfuddsoddiad mwyaf i Gymru.

Felly, mae Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor o wledydd nad ydynt yn yr UE yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o brosiectau mewnfuddsoddi i Gymru bob blwyddyn. Er y bydd y rhesymau dros ymsefydlu yng Nghymru yn amrywio ar gyfer gwahanol gwmnïau, mae cwmnïau o'r tu allan i'r UE sy'n dewis ymsefydlu yng Nghymru yn elwa ar Farchnad Sengl yr UE ac mae llawer yn dewis Cymru yn benodol am y rheswm hwnnw.

Yr UE yw marchnad fwyaf Cymru o safbwynt allforio byd-eang. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2015, roedd yr UE yn cyfrif am oddeutu 42% o'r holl reffeni allforio ar gyfer nwyddau o Gymru. (Ffynhonnell: Ystadegau Cyllid a Thollau EM ynghylch Masnach Ranbarthol).

Iwerddon yw prif gyrchfan allforio Cymru yn yr UE ers 2012, ac yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2015 roedd yn cyfrif am 23.5% o'r nwyddau a allforiwyd o Gymru i'r UE, a oedd yn werth £1.24 biliwn. Yn yr un cyfnod roedd allforion Cymru i'r Almaen yn werth £1.04 biliwn, sef 19.7% o holl allforion Cymru i'r UE.

3. Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd

Cronfeydd Strwythurol

Mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ceisio mynd i'r afael ag anghyfartaledd rhanbarthol o ran llewyrch a chyfluoedd ar draws yr UE. Hyd yma mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi darparu lefel sylweddol o fuddsoddiad er mwyn helpu i sicrhau twf a swyddi cynaliadwy yng Nghymru.

Drwy Raglenni 2007-2013 cafodd dros £1.9 biliwn o gymorth o Gronfeydd Strwythurol yr UE ei gymeradwyo, a oedd yn cyfateb i fuddsoddiad gwerth cyfanswm o £3.6 biliwn mewn prosiectau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu i greu tua 11,900 o gwmnïau a 34,500 o swyddi gros ac wedi helpu dros 64,900 o bobl i gael gwaith a 203,300 o bobl i ennill cymwysterau.

Ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-2020 mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yn werth oddeutu £1.8 biliwn i Gymru, ar sail cyfraddau cyfnewid cyfredol, ac mae tua £1.5 biliwn wedi'i ddyrannu i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a thros £300 miliwn wedi'i ddyrannu i Ddwyrain Cymru. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglenni mae £440 miliwn o gyllid yr UE (19.5% o ddyraniad yr UE) wedi'i fuddsoddi, gan hybu buddsoddiad sy'n werth cyfanswm o £970 miliwn. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyd-fynd yn agos â pholisïau economaidd Llywodraeth Cymru, sydd â ffocws cryf ar gynyddu sgiliau a chyfluoedd o ran cyflogaeth, ymchwil ac arloesi, helpu busnesau i ffynnu, ac ynni adnewyddadwy.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Datblygu Gwledig

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cynorthwyo ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf yn ystod cyfnod o straen aruthrol ar y diwydiant, a chaiff cymorth ei ddarparu er mwyn datblygu ein heconomi mewn ardaloedd gwledig.

Darparodd yr UE £210 miliwn yn 2015 ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol i 15,500 o fusnesau fferm yng Nghymru. Mae hefyd yn buddsoddi oddeutu £490 miliwn yng Nghymru yn ystod 2014-2020, dan Raglen Cymunedau Gwledig - Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, sef rhaglen i Gymru gyfan sy'n sicrhau bod blaenoriaethau'r UE ar gyfer datblygu gwledig yn cyd-fynd â'r saith nod sy'n perthyn i 'Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'. Mae Llywodraeth Cymru yn cydariannu'r rhaglen hon, sy'n golygu ein bod bron yn dyblu'r swm dan sylw er mwyn darparu cymorth ar gyfer ystod o weithgareddau y bwriedir iddynt gynyddu cynaliadwyedd a chydnerthedd ein hamgylchedd naturiol, y sector diwydiannau'r tir, busnesau bwyd a chymunedau. Mae hynny'n cynnwys: gwella sgiliau, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth; creu a diogelu swyddi; gwella canlyniadau amaeth-amgylcheddol; hybu coetir a choedwigaeth; cynyddu bioamrywiaeth; cynorthwyo a hybu effeithlonrwydd o ran adnoddau; datblygu a darparu gwasanaethau ecosystem; cefnogi datblygu cymunedol; gwella iechyd a lles anifeiliaid; a lleihau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

Mae gan y rhaglen hon lawer iawn o botensial, fel sy'n amlwg ym mhrif gyflawniadau Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013, a oedd yn werth cyfanswm o £860 miliwn:

- Cafodd 53,762 o ddiwrnodau hyfforddi eu darparu a chymerodd 96,612 o bobl ran mewn hyfforddiant;
- Llwyddodd cyllid wedi'i dargedu i gryfhau agweddau ar ein diwydiant bwyd sy'n ymwneud â gwerth ychwanegol, gan sicrhau cynnydd o €33m mewn Gwerth Ychwanegol Gros drwy grantiau o €105m i 191 o fusnesau bach a chanolig, a chadwyni cyflenwi byrrach a mwy effeithlon i 33 o brosiectau cydweithredol;
- Llwyddodd cyfres Glastir o gynlluniau, sy'n canolbwyntio ar leihau'r heriau'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, dal carbon, rheoli dŵr a hybu bioamrywiaeth, i ddod â thros 1 filiwn hectar o dir dan reolaeth weithredol ar 6,500 o ffermydd, ac aeth grantiau cyfalaf gwerth €20 miliwn i'r afael yn benodol ag effeithlonrwydd ynni a dŵr a'r gwaith o reoli slyri;
- O ran cymunedau ac economïau gwledig, cafodd 397 o brosiectau eu cynorthwyo gan gynnwys 100 o brosiectau LEADER ar gyfer anghenion a ddiffiniwyd yn lleol, a llwyddwyd i ragori ar ddisgwyliadau wrth i 1,484 o swyddi gael eu creu.

Rhaglenni eraill yr UE

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon/Cymru 2014-2020 sy'n werth £58 miliwn o gyllid yr UE. Mae pob un o'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol

Ewropeaidd 2014-2020 eraill y bydd Cymru yn cymryd rhan ynddynt, sef Ardal yr Iwerydd, Rhwydwaith Arsylwi Cynllunio Gofodol Ewrop, Interreg Ewrop, Gogledd-orllewin Ewrop ac URBACT III (ar gyfer datblygu trefol integredig), wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol ac mae trefniadau gweithredu ar y gweill gyda chyllideb gyffredinol o bron £1 biliwn gan yr UE.

Mae Cymru hefyd yn elwa ar ffrydiau cyllido yn yr UE a gaiff eu rheoli'n uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys oddeutu £25 miliwn hyd yma dan y rhaglen Horizon 2020 (2014-2020) i hybu ymchwil, gan gynnwys £7 miliwn gan yr UE ar gyfer cynllun COFUND gwerth £17 miliwn Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i gynyddu capasiti Cymru i gyflawni ymchwil wyddonol o'r radd flaenaf. Mae cyfleoedd eraill ar gael dan gronfeydd i gynorthwyo busnesau bach a chanolig (y Rhaglen Cystadleugarwch Mentrau Bach a Chanolig (COSME)), y diwydiannau creadigol (Ewrop Greadigol), trafniadaeth, ynni a chysylltiadau digidol (y Cyfleuster Cysylltu Ewrop), gweithredu o ran yr amgylchedd a'r hinsawdd (LIFE) a chyfleoedd i astudio dramor (ERASMUS +). Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cyhoeddi map o'r cronfeydd hyn, a reolir yn uniongyrchol, ar ei wefan.

4. Y Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop

Nod y Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop, a elwir yn aml yn Gynllun Juncker, yw mynd i'r afael ag argyfwng Ewrop o ran tanfuddsoddi, trwy drefnu bod €315 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol, gan y sector preifat yn bennaf, ar gael yn ystod y tair blynedd nesaf drwy offerynnau ariannol ar ffurf benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti. I raddau, mae hynny'n arwydd o gefnu ar y dulliau traddodiadol o weithredu sy'n seiliedig ar grantiau. Mae'r Cynllun yn un rhan o agenda ehangach y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer twf, a chaiff ei ategu gan nifer o ddiwygiadau hybu twf, sy'n ymwneud â rheoleiddio gwell, yr Undeb Marchnadoedd Cyfalaf a dileu rhwystrau yn y Farchnad Sengl. Mae gan y Cynllun dri philer:

- Y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol, a gaiff ei gweithredu gan Fanc Buddsoddi Ewrop ac sy'n werth €21 biliwn, ac a ddefnyddir fel gwarant ysgwyddo risg ar gyfer buddsoddiadau strategol mawr yn yr economi go iawn.
- Yr Hyb Cyngori ar Fuddsoddi yn Ewrop er mwyn helpu i nodi, paratoi a datblygu prosiectau.
- Y Biblinell o Brosiectau Buddsoddi yn Ewrop, y caiff hyrwyddwyr eu gwahodd i gyflwyno eu prosiectau iddi gyda'r bwriad o hybu tryloywder ac amlygrwydd.

Mae'r Gronfa yn darparu mwy o gyllid ar gyfer y cynlluniau risg uwch y byddai Banc Buddsoddi Ewrop fel rheol yn eu cefnogi, yn hytrach na'i bod yn adlewyrchu mwy o barodrydd i gymryd risg, a hyd yma mae oddeutu ugain o brosiectau wedi'u cefnogi drwy'r Gronfa.

Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan Fanc Buddsoddi Ewrop i gynyddu buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru, sy'n cynnwys ystyried

y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol, ac mae'n annog hyrwyddwyr prosiectau yng Nghymru i wneud yr un fath.

Gallai'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol sicrhau bod hyrwyddwyr prosiectau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru yn cael mynediad i gyllid y mae'n rhaid ei ad-dalu – gan gynnwys ym maes trafndiaeth, ynni, arloesi, ymchwil, addysg, y farchnad ddigidol a chymorth i fusnesau bach a chanolig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi prosiectau posibl yng Nghymru ym mhiblinell fuddsoddi ddangosol y DU, a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ddiwedd y llynedd. Mae'r prosiectau hynny'n cynnwys Canolfan Ganser Felindre; Ynys Ynni Môn; Morlyn Llanw Bae Abertawe; Ardal Arloesi SA1; y Gronfa Twf Gwyrdd a'r Metro.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi trafod y Cynllun ag uwchswyddogion Banc Buddsoddi Ewrop ar sawl achlysur ac mae cyswllt â'r Banc ar lefel swyddogion yn parhau. At hynny, cynhaliodd yr Hyb ei weithdy cyntaf yng Nghymru ym mis Tachwedd, a ddaeth â phersonél allweddol o Fanc Buddsoddi Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd ac oddeutu 70 o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ynghyd.

5. Yr Undeb Ewropeaidd a'r DU – Safbwyntiau

Effaith/cost rheoleiddio

Nod y Farchnad Sengl yw hwyluso masnach drwy leihau'r ffactorau sy'n rhwystro masnach ac sy'n cyfyngu arni. Mae'r Farchnad Sengl yn darparu llwyfan masnachu cyson ar draws yr Undeb, sy'n helpu i feithrin marchnadoedd mwy cystadleuol ac effeithiol, gan gynyddu dewisiadau i ddefnyddwyr a lleihau costau ar yr un pryd a chynig i potensial i gwmnïau elwa ar arbedion maint mwy helaeth.

Yn rhan o'i ymgyrch i hybu swyddi a thwf, nod y Comisiwn Ewropeaidd yw dangos ymrwymiad cryf i reoleiddio gwell. Mae ei raglen ddeddfwriaethol yn symlach na'i raglen flaenorol, ac uchelgais y Comisiwn yw bod o ddifrif ynglŷn â'r pethau mawr a'u cyflawni'n well.

Yr effaith economaidd pe bai'r DU yn gadael yr UE

Drwy fod yn rhan o'r Farchnad Sengl, mae'r DU yn elwa ar y canlynol:

- Y ffaiith bod cyflenwadau a/neu nwyddau i ddefnyddwyr ar gael yn rhatach – drwy gystadleuaeth, arbedion maint, llai o rwystrau cyfreithiol, tariffau is a chostau eraill is o safbwynt trafodion;
- Cynnydd yn yr amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i'w defnyddio;
- Y ffaiith bod llafur yn gallu symud ar draws yr Undeb;

- Llwyfannau ar gyfer arloesi;
- Y ffaith bod modd cael gafael yn haws ar weithwyr medrus;
- Mwy o fuddsoddi; a
- Mwy o ledaenu technoleg.

Pe bai'r DU yn gadael yr UE, byddai'r effaith economaidd gyffredinol ar Gymru yn enfawr. Mae miloedd llawer o swyddi'n dibynnu ar fasnach yn yr UE ac mae llawer o gwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghymru yn dibynnu ar y Farchnad Sengl ar gyfer eu strategaeth fusnes. Ni all neb ragweld yn union beth fyddai'r amgylchiadau newydd ar ôl ymadael â'r UE. Mae'n amlwg y byddai angen i'r DU drafod telerau dwsinau o gytundebau masnachu ledled y byd, a fyddai'n dasg anodd a drud a fyddai'n cymryd llawer o amser ac yn achosi ansicrwydd.